Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** | |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** | |
| **Dyddiad:** | **30 Ionawr 2018** | |
| **Amser:** | **10:00 – 12:00** | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu (CC) (Eitem 5 yn unig)<br>Jessica Williams, Rheolwr Ariannu Allanol (RhAA) (Eitem 5 yn unig)<br>Arol. Gwyndaf Bowen (GB)<br>Miss Mair Harries, Swyddog Cymorth Gweithredol (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 16/01/2018 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 3034** | **PS i ymgysylltu â'r CC mewn perthynas â'r dangosyddion perfformiad ar gyfer prosiect Goleudy.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 3035** | **GB i roi diweddariad i'r CHTh ynglŷn â'r dechnoleg a ddefnyddiwyd i ddatrys achos o ladrata yn y Drenewydd.** | **Yn Parhau** |
| **PB 3036** | **GB i roi diweddariad i'r CHTh ynglŷn â lladradau beiciau cwad ac achosion o dorri mewn i siop Co-op.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 3037** | **Rhoddodd y PG ateb swyddogol i'r CHTh mewn perthynas â barn HDP ynghylch Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 3038** | **Y Pennaeth Staff i ddrafftio nodyn eglurhaol ar gyfer rhoi adborth ar Gytundeb Adran 22A.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 3039** | **MH i wneud y diwygiadau a awgrymwyd i'r Fframwaith** | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd.** | |
| **PB 3040** | **GB i lunio ymateb i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i weithrediadau Diogelwch y Ffyrdd.** | **Wedi'i gwblhau** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 30/01/2018** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 58** | **Mae'r PG a'r CHTh yn cytuno i'r cytundeb Gwobr Tendr Sengl Cam-drin Rhywiol gael ei roi i elusen Llwybrau Newydd ar gyfer comisiynu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig am £136,570 heb gynnwys TAW.** | **PS** |
| **PB T2 59** | **Mae'r Heddlu'n ymrwymo i gyfrannu at Adolygiadau o Laddiadau Domestig ochr yn ochr â phartneriaid statudol eraill.** | **PG** |

**2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr a materion yn codi**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod.

PB 3036: Lladradau beiciau cwad ac achosion o dorri i mewn.

Trafodwyd cais gan aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu i fynychu'r Fforwm Troseddau Gwledig ar gyfer partneriaid ar 12 Chwefror. Cytunodd y PG y byddai'n briodol iddynt anfon cynrychiolydd. Dywedodd y PG y byddai'r rhain yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn ganolog ac ar draws ardal Dyfed-Powys.

**Cam Gweithredu: GB i anfon manylion at y PS am y Fforwm Troseddau Gwledig.**

PB 3037 – Y gyllideb ar gyfer Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu

Dywedodd y CHTh ei fod wedi derbyn diweddariad mewn perthynas â'r gyllideb ar gyfer Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu ac y byddai costau Dyfed-Powys yn cael eu lleihau ymhellach o £850,000 i lai na £118,000 ar gyfer 2018-19. Roedd hi'n dda gan y CHTh nodi bod 4 o swyddogion Dyfed-Powys yn gweithio o fewn Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Nododd y Comisiynydd bod Dyfed-Powys yn derbyn £50,000 y flwyddyn ar hyn o bryd gan Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu ar gyfer defnyddio safle Pen-bre fel canolfan flaenweithredu. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â defnydd o'r safle yn y dyfodol gyda'r CHTh yn gofyn i'r PG ddarparu gweledigaeth weithredol ar gyfer y dyfodol.

**Cam Gweithredu: Rhoi adroddiad Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu mewn perthynas â chynlluniau'r PG ar gyfer safle Pen-bre i'r CHTh.**

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

<u>Diweddariad gweithredol</u>

Diweddarodd y PG y Bwrdd ar amrediad o weithgareddau gweithredol, gan gynnwys achos o esgeuluso plant yn Sir Gaerfyrddin, sawl achos o drais rhywiol yn Hwlfforrdd, a lladrad yng Nghaerfyrddin, ond nid yn gyfyngedig i hynny. Dywedodd y PG y bu dau ymosodiad ar swyddogion heddlu, fodd bynnag, roedd ymosodiad ar swyddog yn Llandrindod yn cynnwys eitem o ddillad wedi'i drochi mewn gwaed yn cael ei daflu at wyneb swyddog, gan arwain at y swyddog yn cael ei gludo i'r ysbyty. Dywedodd y PG fod marwolaeth a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau wedi digwydd yn Llanelli. Hefyd, rhoddodd y PG wybod am giang o helwyr pedoffiliaid a oedd wedi denu unigolyn i faes parcio McDonalds drwy esgus bod yn ferch ifanc ar-lein. Gweithredodd y giang gyda'r bwriad o ddwyn yr unigolyn  i sylw Heddlu Dyfed-Powys.

<u>Diweddariad sefydliadol</u>

Dywedodd y PG y byddai ef a'r CHTh yn cwrdd â'r Cadetiaid Heddlu ddydd Llun 5 Chwefror cyn Dadl y CHTh a'r PG yn Aberhonddu'r noson honno. Dywedodd y PG ei fod wedi ymgysylltu â'r Heddlu Bach ac wedi sicrhau cyllid gwerth £6000 o'r Gronfa Drawsnewid er mwyn cael offer ar gyfer ysgolion cynradd sydd eisiau ymgysylltu â'r heddlu.

Cynhaliwyd Diwrnod Mentrau Staff ar 29 Ionawr er mwyn archwilio i lefelau gwasanaeth, lefelau straen ymysg staff a ffactorau eraill sy'n effeithio ar staff Heddlu Dyfed-Powys. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag ymgysylltu a chymhelliant ar gyfer staff.

## 4. Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

<u>Lleol</u>

Hysbysodd y PS y Bwrdd fod SCHTh yn cychwyn cyfnod recriwtio gyda dau set o gyfweliadau ar gyfer rolau'n cael eu cynnal wythnos nesaf.

Holodd y PG am ail-leoli adrannau a swyddfeydd ar draws Pencadlys yr Heddlu a chafodd wybod bod gweithgareddau'n mynd rhagddynt er mwyn sicrhau bod y bloc llety ym Mhencadlys yr Heddlu'n cael ei wagio er mwyn symud ymlaen â'r prosiect adnewyddu.

Hysbysodd y CHTh y Bwrdd fod pob aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu wedi cytuno i'r cynnydd o 5% yn y Praesept Heddlu.

Soniodd y CHTh y byddai hanner ffordd trwy ei wasanaeth fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ym mis Mai 2018, a dywedodd ei fod yn gobeithio mynd ar daith o gwmpas gorsafoedd Heddlu Dyfed-Powys er mwyn nodi'r achlysur.

**Cam Gweithredu: MH i drefnu taith o'r Ardal Heddlu ar gyfer y CHTh ym mis Mai.**

Cenedlaethol

Dywedodd y CHTh ei fod wedi tynnu'n ôl o Fwrdd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu er mwyn canolbwyntio ar faterion lleol, ond byddai'n parhau â'i Bortffolio Arweinyddiaeth cenedlaethol, Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu a'r Bwrdd Plismona Digidol. Hysbysodd y CHTh y Bwrdd y byddai'n mynychu cyfarfod o'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn Llundain ar 31 Ionawr. Dywedodd y CHTh ei fod wedi mynychu diwrnod i ffwrdd gyda Bwrdd Cyfiawnder Cymru Gyfan yr wythnos flaenorol lle dywedodd Barry Hughes, Prif Erlynydd y Goron, fod Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn y De Orllewin yn cyflogi unigolyn i gydlynu a rheoli eu data perfformiad. Dywedodd y CHTh ei fod wedi bod yn ceisio datblygu syniad o'r fath yn yr ardal heddlu ers 18 mis, ond nid oedd yn cael llawer o gefnogaeth gan bartneriaid.

**5. Pwnc Misol: Comisiynu**

Daeth y Cyfarwyddwr Comisiynu (CC) Alison Perry a'r Rheolwr Ariannu Allanol (RhAA) Jessica Williams i mewn i'r cyfarfod er mwyn rhoi diweddariad ynghylch gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu.

Diweddarodd y CC y Bwrdd ynghylch nifer o gytundebau cyfredol:

- Cytundeb Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Dywedodd y CC bod y Bwrdd Comisiynu wedi cymeradwyo'r cynnig i estyn y gwasanaeth am ddwy flynedd arall. Codwyd cwestiynau ynglŷn â gwerthuso'r gwasanaeth, rhannu gwybodaeth a chael mynediad at ddata a fyddai'n cael ei ddatblygu maes o law.

- Llamau

Nodwyd bod cytundeb Llamau wedi'i estyn. Ymatebodd y CC i bryderon a godwyd yn ystod trafodaethau â'r Bwrdd Comisiynu bod cyfyngiadau o ran data personol yn effeithio ar allu swyddogion i gyfeirio pobl ifainc a menywod sy'n agored i niwed, sef y rhai a gynrychiolir gan Llamau, i'r gwasanaeth. Dywedodd y CC y byddai angen cynnal trafodaethau pellach er mwyn datrys y sefyllfa gyfredol.

**Cam Gweithredu: Y PS i drafod y mater o rannu gwybodaeth ymysg gwasanaethau a gomisiynwyd gyda'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol.**

- Cyfiawnder Adferol

Nododd y CC bod hyfforddiant CA ar gyfer swyddogion a oedd i'w gynnal ym mis Ionawr wedi'i ohirio. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â nifer y swyddogion a oedd wedi derbyn hyfforddiant mewn rheolaeth drwy orfodaeth, a chredwyd bod y rhan fwyaf o swyddogion wedi derbyn yr hyfforddiant hwn.

Eto, cododd y CC y mater o anawsterau mewn perthynas â swyddogion yn ceisio caniatâd gan y dioddefydd er mwyn rhannu ei wybodaeth ag asiantaethau partner. Gofynnodd y PG am i'r mater gael ei godi gydag adran gyfreithiol yr heddlu oherwydd teimlwyd bod cynnydd y dioddefydd yn cael ei gyfyngu gan fesurau rhannu data llym.

**Cam Gweithredu: Y PS i drafod y mater o geisio caniatâd dioddefwyr i rannu eu gwybodaeth gydag asiantaethau partner gyda Rachel Jones o'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol.**

- Camddefnyddio Sylweddau

Dywedodd y CC nad oedd cyllid ar gyfer gwasanaethau ym Mhowys wedi newid, fodd bynnag, cynigiwyd gostyngiad o ran cyllid yn Nyfed. Dywedodd y CC bod HDP yn buddsoddi'n helaeth ar hyn o bryd yng Ngwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed a bod adroddiad effaith gan y sefydliad a oedd yn ystyried gostyngiad HDP wedi awgrymu dilead dramatig gwasanaethau nad oedd yn cael ei ystyried yn adlewyrchiad cywir o swm y cyllid a oedd yn cael ei dynnu'n ôl. Hefyd, dywedodd y CC y byddai Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed yn cynnig canslo ei wasanaeth 'Chooselife'. Mae 'Chooselife', sydd wedi'i leoli ar hyn o bryd ar Heol Copperworks, Llanelli, yn cynnig cymorth a chyngor ar gyfer camddefnyddwyr sylweddau a'u teuluoedd.

- Cam-drin Domestig

Dywedodd y CC bod dau gynnig wedi'u derbyn ar gyfer y cytundeb, sydd yn £400,000 y flwyddyn, i ddarparu 11.5 Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig ar draws yr ardal heddlu.

- Cam-drin Rhywiol

Nodwyd bod cyfarfod diweddaru SARC (Canolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhyw) wedi'i gynnal ym mis Rhagfyr a bod awgrymiadau wedi'u gwneud ar gyfer penodi Rheolwr Prosiect Iechyd er mwyn adolygu cynnydd. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r amserau aros ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol i gael mynediad at wasanaethau cwnsela. Cytunwyd bod y mater yn peri pryder mawr ac y dylid ysgrifennu at Lywodraeth Cymru er mwyn tynnu sylw at y pryderon.

**Cam Gweithredu: Y CC i ddrafftio llythyr i Vaughan Gething AC ac Alun Davies AC mewn perthynas â'r amser y mae'n rhaid i ddioddefwyr cam-drin rhywiol aros am wasanaeth cwnsela.**

- Bodlonrwydd Defnyddwyr

Awgrymodd y CC bod diffyg eglurder ar hyn o bryd o ran ble y mae Bodlonrwydd Dioddefwyr yn cael ei reoli o fewn yr heddlu. Dywedodd y CC bod Bwrdd Dioddefwyr yn cael ei gynnal ar 2 Chwefror lle y gellir datrys materion o'r fath.

**Cam Gweithredu: CC i ymgysylltu â’r DBG Parmenter mewn perthynas â monitro Bodlonrwydd Dioddefwyr.**

- Goleudy

Cododd y CC faterion o ran gwybodaeth rheoli perfformiad. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â nifer y gweithwyr achos yn hwb Goleudy a pha un ai a oedd capasiti ar gyfer mynd i’r afael â’r materion dros y misoedd i ddod.

- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Dywedodd y CC mai’r Uwch-arolygydd Gary Mills oedd yr arweinydd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol. Awgrymodd y CC y dylai’r Heddlu ond fod yn rhan o achosion lefel uwch gan y dylai partneriaid gynorthwyo ag achosion lefel is.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â’r gwasanaeth yn defnyddio MAVIS yn lle Gwasanaethau Digidol ASBIS a pha un ai a fyddai’r newid yn achosi oedi mewn rhai achosion. Hysbysodd y PG y Bwrdd fod yr adran TGCh yn cwblhau diweddariadau i’r system MAVIS ar hyn o bryd ac y byddai’n cael gwybod am unrhyw broblemau mewn perthynas â’r newid.

**Cam Gweithredu: Cynrychiolwyr o’r adran TGCh i roi diweddariadau i’r CHTh mewn perthynas â’r system MAVIS.**

Diweddarodd y RhAA y Bwrdd ynglŷn â’r gwasanaeth braenaru, sef gwasanaeth cyfeirio sy’n rhoi cymorth am ddim i bobl a sefydliadau mewn perthynas â materion sy’n ymwneud â llosgach, trais rhywiol a cham-drin adeg plentyndod. Dywedodd y RhAA fod bwrdd prosiect wedi’i sefydlu a bod cylch gorchwyl wedi’i gytuno. Nodwyd y byddai Gwalia dal yn darparu’r gwasanaeth, gyda’r RhAA yn trefnu gwobr tendr sengl ac amrywiadau cytundeb.

Dywedodd y RhAA ei bod hi’n bwysig fod yr adran gyfathrebu’n hyrwyddo’r gwasanaeth braenaru’n fewnol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio. Nodwyd bod sawl Rhingyll yn Sir Benfro wedi’u nodi fel hyrwyddwyr posibl y cynllun.

Dywedodd y RhAA bod cyfarfod wedi’i gynnal gyda Phrifysgol y Drindod Dewi Sant er mwyn gwerthuso’r prosiect yn ei gyfanrwydd. Roedd y Brifysgol wedi cyflwyno sawl dewis ar gyfer cwblhau’r gwerthusiad, gan gynnwys cyflogi myfyriwr PHD i gyflawni’r gwaith.

## 6. Materion i’w Hystyried

### a) Gwobr Tendr Sengl – Cam-drin Rhywiol

Nododd y PSA ei bod hi’n hapus i wobrwyo’r cytundeb Tendr Sengl newydd ar gyfer comisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin rhywiol i elusen Llwybrau Newydd am £136,570 heb gynnwys TAW.

**Penderfyniad: Mae'r PG a'r CHTh yn cytuno i'r cytundeb Gwobr Tendr Sengl Cam-drin Rhywiol gael ei roi i elusen Llwybrau Newydd ar gyfer comisiynu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig am £136,570 heb gynnwys TAW.**

**b) Gwybodaeth ynglŷn â'r Adolygiad o Laddiadau Domestig ar gyfer Aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

Dywedodd y CHTh fod y PS wedi mynd i gyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, lle codwyd mater mewn perthynas ag ariannu Adolygiadau o Laddiadau Domestig. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chyllid ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, sydd nawr yn mynd i SCHTh.

**Penderfyniad: Mae'r Heddlu'n ymrwymo i gyfrannu at Adolygiadau o Laddiadau Domestig ochr yn ochr â phartneriaid statudol eraill.**

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 30/01/18** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 3041** | **GB i anfon manylion at y PS am y Fforwm Troseddau Gwledig.** | **GB** |
| **PB 3042** | **Rhoi adroddiad Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu mewn perthynas â chynlluniau'r PG ar gyfer safle Pen-bre i'r CHTh.** | **GB** |
| **PB 3043** | **MH i drefnu taith o'r Ardal Heddlu ar gyfer y CHTh ym mis Mai.** | **MH** |
| **PB 3044** | **Y PS i drafod y mater o rannu gwybodaeth ymysg gwasanaethau a gomisiynwyd gyda Rachel Jones o'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol .** | **PS** |
| **PB 3045** | **Y PS i drafod y mater o geisio caniatâd dioddefwyr i rannu eu gwybodaeth gydag asiantaethau partner gyda'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol.** | **PS** |
| **PB 3046** | **Y CC i ddrafftio llythyr i Vaughan Gething AC ac Alun Davies AC mewn perthynas â'r amser y mae'n rhaid i ddioddefwyr cam-drin rhywiol aros am wasanaeth cwnsela.** | **CC** |
| **PB 3047** | **CC i ymgysylltu â'r DBG Parmenter mewn perthynas â monitro Bodlonrwydd Dioddefwyr.** | **PS** |
| **PB 3048** | **Cynrychiolwyr o'r adran TGCh i roi diweddariadau i'r CHTh mewn perthynas â'r system MAVIS.** | **GB** |